Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

# Cofnodion Cangen y Senedd
# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
# 6 Rhagfyr 2023

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol ac agorodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**1. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

**2. Materion sy'n codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**3. Unrhyw faterion brys**

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod

**4. Adroddiad gan Gadeirydd Cangen y Senedd, Rhun ap Iorwerth AS**

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol i'r Gangen.

Ni fu unrhyw newidiadau yn Aelodaeth Pwyllgor Gweithredol y Gangen yn ystod y cyfnod hwn a oedd wedi cyfarfod yn ffurfiol yn ogystal â chynrychioli'r Gangen fel rhan o ymweliadau a gweithgareddau niferus. Nododd y Cadeirydd rai gweithgareddau nodedig dros y cyfnod adrodd hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Cafodd Alun Davies AS ei ddewis i gymryd rhan yng Ngweithdy Masnach Cangen y DU o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar gyfer Tiriogaethau Tramor, Dibyniaethau'r Goron a Deddfwrfeydd Datganoledig ac roedd Peredur Owen Griffiths AS wedi cynrychioli'r Senedd yn Seminar San Steffan eleni.

  Roedd Cynhadledd BIMR eleni, a gynhaliwyd gan Gangen y DU o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, hefyd wedi'i chynnal yn San Steffan, gyda'r Senedd yn cael ei chynrychioli gan y Cadeirydd, Is-lywydd y Gangen, David Rees AS, Rhianon Passmore AS a Joyce Watson AS.
- Cynrychiolodd Adam Price AS a Carolyn Thomas AS y Senedd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad eleni, a gynhaliwyd gan Ghana, a roddodd gyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau ar ystod o faterion pwysig, gan gynnwys ar Gydraddoldeb Rhywiol a Hawliau LHDTC+ o fewn y Gymanwlad.
- Mae'r Senedd wedi bod yn falch iawn o gymryd rhan mewn nifer o ymweliadau mewnol, gan gynnwys dau gan senedd ffederal Canada ac roedd yn bleser ym mis Mehefin croesawu Stephen Twigg, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, i'r Senedd.
- Roeddem yn siomedig am y ffaith na chynhaliwyd cynhadledd ranbarthol ffurfiol ar gyfer Seneddwragedd y Gymanwlad yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Serch hynny, roedd Aelodau o'r Senedd wedi cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad, yn ogystal â gweithgareddau cysylltiedig eraill.

Roedd manylion pellach am y rhain, yn ogystal â'r gwaith diddorol a phwysig a wnaed gan Aelodau'r Gangen ar y rhwydweithiau Argyfwng Hinsawdd ac Anableddau, ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol ac ar wefan Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

**5.** <u>Cau</u>

Nododd y Cadeirydd fod 2024 yn argoeli'n dda o ran bod yn flwyddyn brysur a chyffrous i'r Gangen, gyda chynadleddau wedi'u trefnu ym Malta, St Helena,

Sydney, a Seland Newydd, yn ogystal ag ymweliadau mewnol disgwyliedig â'r Senedd gan seneddau Quebec a Fiji.

Diolchodd y Cadeirydd i Ysgrifenyddiaeth y Gangen am eu cefnogaeth ac edrychodd ymlaen at weld diddordeb ac ymgysylltiad parhaus yr Aelodau yn y cyfleoedd hyn a chyfleoedd eraill, drwy ein haelodaeth â Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

## 6. Yn bresennol:

**Aelodau Cangen y Senedd**

1 Elin Jones AS, y Llywydd (Llywydd y Gangen)
2. Y Dirprwy Lywydd David Rees AS (Is-lywydd y Gangen)
3. Rhun ap Iorwerth AS (Cadeirydd y Gangen)
4. Sam Rowlands AS (Pwyllgor Gweithredol y Gangen)
5. Rhianon Passmore AS (Pwyllgor Gweithredol y Gangen)
6. Natasha Asghar AS (Pwyllgor Gweithredol y Gangen)
7. Peredur Owen Griffiths AS
8. Huw Irranca-Davies AS
9. Luke Fletcher AS
10. Mark Isherwood AS
11. Cefin Campbell AS

**Ysgrifenyddiaeth y Gangen:**
Manon Antoniazzi, Ysgrifennydd y Gangen, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen

Arsylwi
Gwion Evans, Swyddfa Breifat y Llywydd
Elin Sutton, Swyddfa Breifat y Llywydd
Aled Lewis, Swyddfa Breifat y Llywydd

**Ysgrifenyddiaeth Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad**
**Rhagfyr 2023**